Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
—
Welsh Parliament
**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

**Julie James AS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

21 Ionawr 2021

Annwyl Weinidog,

**Fframwaith cyffredin drafft ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio)**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 17 Rhagfyr 2020, sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Cyffredin drafft ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio).

Sylwn y cyfeiriwyd at y ddogfen a gafodd y Pwyllgor gennych ar 15 Hydref 2020 fel y 'Fframwaith drafft'. Rydym yn deall bod drafft cynharach wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020 a'i fod wedi'i ddiwygio ers hynny. Er mwyn osgoi dryswch, ac i sicrhau tryloywder, credwn ei bod yn bwysig i Weinidogion egluro statws y dogfennau hyn wrth eu cyflwyno i'r Senedd at ddibenion craffu, ac i sicrhau cysondeb o ran terminoleg ar lefel rynglywodraethol.

At ddibenion y llythyr hwn, byddwn yn cyfeirio at y ddogfen a gawsom gennych ar 15 Hydref 2020 fel y 'Fframwaith drafft'. Hyderwn mai hon yw'r un ddogfen â'r Fframwaith Dros Dro a gyflwynwyd i Senedd y DU at ddibenion craffu.

Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r Pwyllgor mewn sefyllfa i ymgymryd â darn sylweddol o waith yn ymwneud â Fframwaith drafft.  Rydym, fodd bynnag, wedi trafod ei gynnwys a'ch ymatebion i'n cwestiynau. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys ein sylwadau ar y Fframwaith drafft ynghyd â nifer o argymhellion.

Er ein bod, ar y cyfan, yn fodlon â'r Fframwaith drafft, credwn fod angen ystyried nifer o faterion ymhellach.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Fframwaith**

Yn eich llythyr, dyddiedig 17 Tachwedd 2020, nodwch mai cyfyngedig fydd canlyniadau cynigion y fframwaith ac, yn yr un modd, cyfyngedig fydd y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Rydym yn cydnabod bod cynllunio ar gyfer sylweddau peryglus yn bwnc

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

arbenigol, ac nid yw cynigion y fframwaith ynddynt eu hunain yn newid polisi. Fodd bynnag, credwn y gellid bod wedi gwneud mwy i ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau amgylcheddol. Er i chi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ym mis Mawrth 2019, sylwn mai dim ond yn ddiweddar rydych wedi rhannu manylion y Fframwaith drafft â phartïon eraill yng Nghymru a fyddai â diddordeb yn y maes. Rydym yn siomedig na wnaethoch geisio ymgysylltu â'r partïon hyn yn gynharach yn natblygiad y Fframwaith.

**Trefniadau monitro ac adolygu**

Mae'r Fframwaith drafft yn awgrymu y dylid cynnal adolygiad ar ôl dwy flynedd, gyda'r posibilrwydd o gynnal adolygiad cyn hynny os bydd angen. Rydym yn credu bod hyn yn rhesymol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw gwaith craffu allanol a seneddol yn cael ei gydnabod fel rhan bwysig o'r broses adolygu.

Yn ôl y Fframwaith drafft, bydd cynnwys rhanddeiliaid mewn unrhyw adolygiad yn cael ei "ystyried ar y pryd". Fodd bynnag, rydych wedi egluro eich bod yn bwriadu cynnwys rhanddeiliaid wrth adolygu'r Fframwaith, gan gydnabod bod angen bod yn gymesur. Er ein bod yn croesawu hyn, nid ydym yn credu bod y Fframwaith drafft yn adlewyrchu'ch bwriad yn ddigonol.

**Rydym yn argymell y dylid diwygio'r Fframwaith drafft i ddangos eich bod yn disgwyl i randdeiliaid gymryd rhan yn y broses adolygu, gan gydnabod bod angen i'r broses ymgysylltu fod yn gymesur.**

Yn eich llythyr, dyddiedig 18 Rhagfyr 2020, dywedasoch wrthym y byddai Aelodau'r Senedd "yn gallu ymgysylltu [gyda'r broses adolygu] yn yr un modd â rhanddeiliaid eraill". Mae hyn yn siomedig. Mae llywodraethau a deddfwrfeydd y DU wedi rhoi cryn bwyslais ar bwysigrwydd gwaith craffu seneddol wrth ddatblygu fframweithiau cyffredin. Credwn fod hyn yr un mor berthnasol i'r modd y caiff fframweithiau cyffredin eu gweithredu a'u hadolygu'n barhaus wedi iddynt gael eu rhoi ar waith. Dylai'r Fframwaith adlewyrchu hyn. Rydym yn deall bod Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi a Phwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Tŷ'r Cyffredin wedi mynegi safbwyntiau tebyg.

**Rydym yn argymell y dylid diwygio'r Fframwaith drafft i gynnwys trefniadau addas i hwyluso gwaith craffu seneddol fel rhan o'r broses adolygu. Dylai gweinyddiaethau'r DU o leiaf hysbysu seneddau o unrhyw adolygiad o'r Fframwaith, a chyflwyno adroddiad ar ganlyniad unrhyw adolygiad o'r fath.**

**Rhwymedigaethau rhyngwladol**

Mae'r Fframwaith drafft yn esbonio bod dau gytundeb rhyngwladol sy'n berthnasol i'r gyfundrefn cynllunio ar gyfer sylweddau peryglus ("y gyfundrefn"): Confensiwn Aarhus a

Chonfensiwn Effeithiau Trawsffiniol Damweiniau Diwydiannol. Mae'n bwysig bod y Fframwaith drafft yn rhoi darlun cynhwysfawr o holl rwymedigaethau rhyngwladol y DU sy'n berthnasol i'r gyfundrefn. Rydym yn cwestiynu a yw’n gwneud hynny.

**Hoffem ichi gadarnhau bod yr holl rwymedigaethau rhyngwladol sy'n gymwys i'r DU ac sy'n berthnasol i'r gyfundrefn wedi'u cynnwys yn y Fframwaith drafft. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn ymateb cyn gynted â phosibl, a chyn i’r Fframwaith gael ei gwblhau.**

Rwy'n gobeithio y byddwch ynda gallu derbyn ein hargymhellion a bwrw ymlaen â’r newidiadau angenrheidiol gyda'ch swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill cyn cwblhau'r Fframwaith.

Rwy’n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y pwyllgorau perthnasol yn Senedd y DU a’r deddfwrfeydd datganoledig eraill.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English.